



Arddangosfa Celfyddydau Gweledol
Visual Arts Exhibition



Cynnwys

Contents

O'r Gadair • From the Chair Emyr Roberts	4
Eisteddfod 2007 - Croeso David Alston	8
Sylwadau'r Detholwyr • Selectors' Statement Andrew Coomber, Iwan Gwyn Parry, Julian Treuherz, Meri Wells, Bedwyr Williams	10
Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain • The Gold Medal for Fine Art	14
Y Fedal Aur am Grefft a Dylunio • The Gold Medal for Craft and Design	16
Ysgoloriaeth Artist Ifanc • Young Artist Scholarship	17
Gwobrau Eraill • Other Awards	20
Calon Fflint - Jon Gower	23
The Heart of Flint - Jon Gower	25
Yr Arddangoswyr • The Exhibitors	27
Pensaerniaeth yng Nghymru • Architecture in Wales	49
Ysgoloriaeth Bensaerniaeth • Architecture Scholarship	64
Tu hwnt i Fwcle • Beyond Buckley	68

O'r Gadair

From the Chair

Braf yw croesawu'r Eisteddfod Genedlaethol yn ôl i'r Gogledd-ddwyrain unwaith eto a chael cyfle i gyflwyno agweddau ar y Celfyddydau Gweledol i chi. Mae'r Is-bwyllgor lleol, gyda chefnogaeth y Panel Sefydlog ac arweiniad Swyddog Celfyddydau Gweledol yr Eisteddfod, Robyn Tomos wedi llwyddo i gyflwyno arlwy amrywiol ar eich cyfer. Hyderaf y bydd yn rhoi pleser i'r gwylwyr, yn ennyn a datblygu trafodaethau brwd ymysg sylwebyddion, ac yn cyplysu'r traddodiadol â'r cyfoes.

Mae cynnwys yr arddangosfa gelfyddyd gyfoes, flynyddol, bwysicaf yng Nghymru yn Y Lle Celf, yn adlewyrchu meddylfryd a barn y pum detholwr a wahoddwyd i ymgymryd â'r dasg o greu'r Arddangosfa Agored. Gan na osodwyd thema i ymateb iddi bydd y gwaith yn amrywiol ei gyfrwng a'i ddehongliad, ond bydd ei safon yn adlewyrchiad o gelfyddyd gyfoes yng Nghymru heddiw. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i longyfarch yn wresog yr artistiaid a'r crefftwyr sy'n dangos eu gwaith eleni. Yn naturiol, ni fydd pawb yn cytuno â'r hyn a ddangosir, ond i'ch cynorthwyo, bydd dehonglwyr wrth law i'ch tywys neu gynnig eglurhad. Gobeithiaf y bydd yr hyn a welwch chi yn eich symbylu i ddatgan eich barn yn glir a chryno. Cofiwch fwrw eich pleidlais dros y gwaith, sydd yn eich tyb chi, yn haeddu gwobr Dewis y Bobl. Ac i'r ymgeiswyr a siomwyd eleni, daliwch i gredu, hwyrach y tro nesaf eich gwaith chi a ddaw i'r brig.

Mae nifer yr ymgeiswyr wedi parhau'n gyson ar gyfer yr Arddangosfa Agored ond mae angen mwy i sicrhau, herio, cadw a chodi safonau, yn arbennig felly ymhlith y disgyblaethau Crefft a Dylunio. Yn wir, mae'r adran Pensaernïaeth wedi dangos y ffordd eleni gan dorri record y nifer o geisiadau a dderbyniwyd. Llongyfarchiadau eto i'r sawl sy'n arddangos.

Yn ogystal â'r Arddangosfa Agored, mae sawl gweithgaredd arall i ddwyn eich sylw a'ch mwynhad. Wrth drafod

posibiliadau yr Arddangosfa Arbennig cytunwyd yn unfrydol mai traddodiad crochenwaith a gweithfeydd clai Bwcle fyddai'r man cychwyn priodol. Mae'r thema yn gosod pwyslais ar grefftwaith ag iddo bwrpas o ateb diben. Y bwriad oedd cynnig lle amlwg i waith cerameg y Gymru gyfoes trwy wahodd rhai o'n crochenwyr amlycaf i ymateb yn eu dull personol eu hunain i gynnyrch Bwcle. Mae'r cyfuniad o'r traddodiadol a'r cyfoes yn anturus a gan mai cerameg yw'r cyfrwng byddwn yn torri cwys nas gwelwyd yn Arddangosfa Arbennig yr Eisteddfod ers 29 mlynedd. Gwahoddwyd Philip Hughes, curadur proffesiynol a phrofiadol a Chyfarwyddwr Canolfan Grefft Rhuthun i ymgymryd â'r her o drefnu'r sioe. Rwy'n hyderus y bydd y cyfuniad o'i arbenigedd a dawn greadigol y gwneuthurwyr yn gwireddu arddangosfa a fydd yn plesio.

Un o uchafbwyntiau'r adran bob blwyddyn yw ymateb y bardd gwadd i'r gweithiau yn yr arddangosfa. Eleni gwahoddwyd y bardd o Wrecsam, Aled Lewis Evans i ymateb i'r Arddangosfa Agored ac edrychwn ymlaen yn eiddgar i ddarllen ei gerddi a osodir ochr yn ochr â'r gwaith a ysbrydolodd y farddoniaeth.

Gwireddodd yr Eisteddfod gynllun preswyl mewn partneriaeth â Chelf Gyhoeddus Cymru ac Amgueddfa Cymru, a phenodwyd yr artist amlgyfrwng Megan Broadmeadow i weithio gyda phlant, pobl ifainc ac oedolion yn y sir. Lleolwyd y stiwdio ym Mharc Treftadaeth Dyffryn Maes-glas, ger Treffynnon ac ysbrydolwyd yr artist gan yr olion diwydiannol a hanesyddol a welir yno. Gwelir ffrwyth ei llafur oddi mewn ac oddi allan i'r Lle Celf.

Dan nawdd Cyngor Cefn Gwlad Cymru comisiynwyd yr artist Kevan Hopson i gydweithio â myfyrwyr Ysgol yr Argoed, Bryn-y-Baal I godi ymwybyddiaeth o'r Fadfall Ddŵr Gribog (*Triturus cristatus*). Sir Fflint yw un o ychydig gadarnleoedd y creadur prin.

Trefnwyd trafodaethau, darlithoedd a gweithgareddau i'w cynnal yn Y Lle Celf a'r Pagoda. Dyma gyfle i gloriannu cyfraniad a dylanwad y diweddar Syr Kyffin Williams a Peter Prendergast ar gelfyddyd yng Nghymru a thu hwnt. Cynhelir trafodaeth ynghylch prosiect dadleuol Tirnod Cymru a chelfyddyd gyhoeddus yn gyffredinol. Ar yr ochr academiaidd traddodir darlith gan Donald Moore ynglŷn â'r hynafiaethydd Thomas Pennant - brodor o Sir Fflint. Ac ar y Sadwrn olaf, dan adain yr Is-gadeirydd, Gwenno Jones, bydd cyfle i drafod uchafbwyntiau (ac isafbwyntiau) cynnwys Y Lle Celf cyn cyhoeddi enillydd gwobr Dewis y Bobl Sir Fflint a'r Cyffiniau 2007. Mynnwch gipolwg ar y rhaglen lawn i sicrhau'r lleoliadau a manylion digwyddiadau eraill.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi bod ynghlwm â'r paratoadau a phawb a fydd yn rhoi o'u hamser mewn unrhyw ffordd yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Diolch hefyd i'r holl gymdeithasau ac unigolion am gyfrannu'n hael tuag at y gwobrwyon ac i bob asiantaeth sydd ynghlwm â'r gweithgareddau. Diolch i'r artistiaid a gyflwynodd waith i'w ystyried ar gyfer yr arddangosfa - dyma ddymuno'n dda iddynt i gyd yn y dyfodol.

Diolch arbennig i Robyn Tomos, Swyddog Celfyddydau Gweledol yr Eisteddfod am ei arweiniad diflino yn y cyfnod byrrach nag arfer a gafwyd i osod trefn ar yr holl ddigwyddiadau eleni.

Emyr Roberts

Cadeirydd
Is-bwyllgor Celfyddydau Gweledol



Ian, 14 oed / Ian, 14 years

Stefan Gant



Y Jwg Gwyn a Helyg / The White Jug and Willow

Jonathan O'Marah

O'r Gadair

From the Chair

Once again it is a pleasure to welcome the National Eisteddfod back here to the north-east of Wales. It is also an opportunity to showcase for you aspects of the visual arts. The local Sub-committee, with the support of the Standing Panel and the guidance of the Eisteddfod's Visual Arts Officer, Robyn Tomos, has put together a varied menu for you to enjoy. I hope it will please the viewers, encourage and help develop active discussion amongst commentators, and blend the traditional with the contemporary.

The contents of Wales's most important annual exhibition of contemporary art in Y Lle Celf reflects the mind sets and the opinions of the five selectors who were tasked with creating the Open Exhibition. Since no theme was imposed, the works will be varied in terms of both medium and interpretation. Its standard, however, will reflect the contemporary art scene in Wales today. I would like to take this opportunity to congratulate the artists and the makers exhibiting their work this year. Obviously, not everybody will agree with the choice of exhibits, but in order to assist you, interpreters will be on hand to offer guidance and explanations. Remember to vote for the work that you think deserves to win this year's People's Choice award. And for those entrants who have been disappointed this year, keep up the good work. Next time it might be you.

The number of entries for the Open Exhibition has remained constant, but more are needed to guarantee that the standard is ensured, challenged, maintained and raised, especially in the Craft and Design disciplines. Indeed the Architecture section has shown the way this year, breaking the record for the number of entries received. Congratulations once again to all exhibitors.

In addition to the Open Exhibition, there are other activities for your attention and enjoyment. During discussions relating to the Special Exhibition, it was unanimously agreed that the

traditional pottery and clay industries of Buckley would be an appropriate starting point. The theme emphasises putting craftsmanship to a practical purpose. The intention was to afford a prominent place to contemporary ceramic works from Wales by inviting some of our most highly respected potters to respond to Buckley ware in their own personal style. The combination of traditional and contemporary is adventurous and since the medium is to be ceramics we shall be breaking new ground in a way not seen at the Eisteddfod's Special Exhibition for the past 29 years. Philip Hughes, the highly professional and experienced curator and Director of the Ruthin Craft Centre was challenged with the task of mounting the exhibition. I am sure that the combination of his specialism and the artists' own creative talents will produce an exhibition that will please all who see it.

One of the highlights of the section each year is the response of the visiting bard to the works and to the exhibition as a whole. This year, Aled Lewis Evans from Wrexham was invited to respond to the Open Exhibition and we look forward with eager anticipation to reading his poems, which will be appended alongside the work that inspired that particular response.

The Eisteddfod has introduced a residency scheme in partnership with Public Art Wales and Amgueddfa Cymru – National Museum Wales and multi-media artist Megan Broadmeadow was appointed to work with children, young people and adults within the county. The studio is located at Greenfield Valley Heritage Park, near Holywell, and the artist has been inspired by historic and cultural remains found at the site. The fruits of her labour can be seen on the inside and indeed the outside of Y Lle Celf.

With funding from the Countryside Council for Wales, the artist Kevan Hopson was commissioned to work with students at Argoed High School, Bryn-y-Baal, to raise awareness of the

Great Crested Newt (*Triturus cristatus*). Flintshire is one of the few strongholds of this rare creature.

Discussions, lectures and activities have been arranged for Y Lle Celf and the Pagoda. This provides an opportunity to evaluate the contribution and influence of both the late Sir Kyffin Williams and Peter Prendergast on the arts in Wales and beyond. A debate will be held regarding the controversial Landmark Wales project and public art in general. On the academic side, Donald Moore will deliver a lecture on Thomas Pennant, the antiquarian, himself a native of Flintshire. On the final Saturday, under the aegis of the Vice-chair, Gwenno Jones, there will be an opportunity to discuss the highlights (and lowlights) of the contents of Y Lle Celf before the winner of the People's Choice award for Flintshire and District 2007 is announced. The full programme provides details of the times and locations of other events.

I would like to thank everybody who has been associated with the preparations and to everyone who has given their time in any way during the Eisteddfod week. Thank you, also, to all those societies and individuals who have contributed so generously to the awards and to all agencies involved with the activities. Thanks must also go to the artists who have submitted their work for consideration for inclusion in the exhibition - we wish them every success in the future.

Very special thanks too to Robyn Tomos, the Eisteddfod's Visual Arts Officer, for his unstinting hard work during the shorter-than-usual time frame available for organising this year's events.

Emyr Roberts

Chair
Visual Arts Sub-committee



Di-deitl / Untitled
Eleanor Jane Parsons



Eyre Street
Salvatore Fiorello


Eisteddfod 2007

Croeso

Hanfod yr Eisteddfod Genedlaethol yw ei bod yn mudo o'r De i'r Gogledd yn ei thro, gan ddwyn ein sylw o'r newydd at wahanol froydd o flwyddyn i flwyddyn, ac mae Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol yn unfryd unfarn y dylai'r Lle Celf fod yn gartref i'r arddangosfeydd agored mwyaf bywiog a difyr i gelf Cymru.

Trwy ddenu cynulleidfaoedd gyda'r modd y cyflwynir yr arddangosfa ynghyd â chymorth y tywysywyr a gweithgareddau at ddant gwahanol ymwelwyr, llwydda'r Lle Celf i gyflawni rhywbeth nad yw gofod difrif-dawel mewn adeilad o reidrwydd yn llwyddo'i wneud, ond sydd eto'n nod a rennir gan ein hamgueddfeydd a'n horielau hefyd. Gall fod yn brofiad anffurfiol, ymlaciedig, ysbrydoledig, a hwyrach yn sbardun i'r rheiny sy'n ymweld am y tro cyntaf i ymchwilio ymhellach i'r hyn sydd gan y celfyddydau, pensaernïaeth, crefftau a'r celfyddydau cymhwysol i'w gynnig ynghyd â'r canolfannau lle gallant eu canfod yn eu cornel hwy o Gymru.

Mae cynlluniau cyffrous eisoes ar y gweill i ailwampio nifer o ganolfannau'r celfyddydau gweledol yng ngogledd Cymru diolch i arian Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ynghyd ag arian cyhoeddus arall, arian o'r sector preifat a chefnogaeth unigolion. Hwyrach mai gan Oriol Mostyn yn Llandudno y mae un o'r gofodau arddangos mwyaf hardd yn y wlad a bwriedir adeiladu estyniad llawn mor fendigedig er mwyn ehangu'r gofod ar gyfer gwaith celf, addysg a'r gymuned. Blwyddyn nesaf bydd Canolfan Grefft Rhuthun yn codi o lwch y safle adeiladu a chynnig gofodau eang a deniadol newydd er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith gwirioneddol wych a wneir yma o roi llwyfan i wneuthurwyr ac artistiaid Cymru gan sicrhau sylw cenedlaethol a rhyngwladol iddynt. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd bydd Oriol Ynys Môn yn datblygu'n fan i ddod ar bererindod i ddarganfod ac aildarganfod gwaith celf y diweddar Syr Kyffin Williams ochr yn ochr ag oriel sylweddol ar gyfer arddangosfeydd dros dro a gofod ar gyfer



Mike (Dad)

Betina Skovbro

gweithgareddau ac addysg celf weledol. Bydd yr holl ddatblygiadau hyn yn weddnewidiol yn eu ffyrdd unigryw eu hunain ac o ran eu hardaloedd eu hunain yn ogystal ag i Gymru gyfan. Dyma adeg wych i ymwneud â'r celfyddydau ac ymddiddori ymhellach yn y maes a'i gefnogi.

Yn wyneb y datblygiadau hyn, rwy'n edrych ymlaen yn awchus at gael mynd â'r gair ar led o'r Lle Celf eleni i'r nifer cynyddol o orielau, grŵpiau stiwdio, curaduron a sylwebyddion o du allan i Gymru sy'n dangos diddordeb cynyddol yn y gwaith celf gweledol a ddaw o'n gwlad.

David Alston

Cyfarwyddwr y Celfyddydau
Cyngor Celfyddydau Cymru

Eisteddfod 2007

Croeso

The essence of the National Eisteddfod is that it is migratory, moving around Wales between north and south in its cycle. It provides a changing focus for localities from year to year and it is a shared ambition between The Arts Council of Wales and the National Eisteddfod that the Lle Celf should host the liveliest of open exhibitions of art from Wales.

By engaging with its audiences through the presentation of the exhibition and the presence of guides and activities playing to the interests of all visitors, the Lle Celf does something that maybe a hushed solemn space in a building cannot do but which our museums and galleries consider a goal too. It can be an informal, "dressed down" and engaging experience, perhaps one for the first time visitor that might prompt them to investigate further what arts, architecture, crafts and applied arts have to offer and the places they can encounter them in their region of Wales.

Those places for the visual arts in north Wales are embarked on an exciting path of redevelopment, funded by Arts Council Lottery Fund money and combining with other public and private sector and individual support. Oriol Mostyn in Llandudno has perhaps one of the most beautiful of gallery spaces in the land and is set to extend itself in like fashion to enhance its space for art, education and the community. Ruthin Craft Centre will emerge from the development of its site next year with spacious and captivating new spaces in which to carry forward its stunning work in foregrounding makers and artists of Wales and giving them an national and international springboard. Oriol Ynys Môn will develop too, over this period, as a place of pilgrimage to discover and rediscover the art of the late Sir Kyffin Williams alongside a large temporary exhibition gallery and a space for activities and visual art education. All these developments will be transformatory in their individual ways for their particular



Tuag at Merthyr Mawr / Towards Merthyr Mawr
Thomasin Toohie

places and for Wales as a whole. Now is just the time to get involved and maybe lend your interest and support.

Against this background of developments, I particularly look forward to spreading the word from this year's Lle Celf to the ever growing number of galleries, studio groups, curators and commentators beyond the country who are showing increasing interest in visual arts practice emanating from Wales.

David Alston

Arts Director
The Arts Council of Wales

Sylwadau'r Detholwyr

Selectors' Statement

Mae nifer rhyfeddol a chalonogol o artistiaid yng Nghymru y mae eu celfyddyd wedi'u gwreiddio yn y synnwyr o le. Mae'r arddangosfa yn cynnwys rhai mathau o gelfyddyd y gellid fod wedi eu creu yn unrhyw le, ond hefyd gweithiau sy'n datgan eu bod yn 'Gymreig', weithiau yn hyglyw a chliir, ac weithiau'n dawelach. Nid yw hynny yn gyfystyr a dweud eu bod yn ymdrin â stereoteipiau gwerinol Cymreig, glo, llechi, defaid ac Eryri. Mae gweld ffotograffau moethus oriau'r nos Gareth Roberts i weld tirlun Cymru gyda llygad newydd. Mae ffotograffau cynhyrfus Manon Awst a Benjamin Walther yn defnyddio lleoliadau Cymreig ond mae'r canlyniad ymhell o fod yn ystrydebol tra bod fideo ffraeth Inga Burrows yn rhoi stori hynod gofiadwy i ni am blentyndod mewn tref yn y Cymoedd. Yn fwy traddodiadol, ond eto yn defnyddio'r cefnllun Cymreig fel eu man cychwyn, yw'r gyfres ryfeddol amrywiol ar yr A4061 gan Paul Cabuts a storïau paentiedig oriog gan Thomasin Toohie. Mae gan yr holl weithiau hyn rywbeth personol a gwreiddiol yn eu cylch a hyn a argyhoeddodd y panel i'w dewis.

Efallai mai'r gwaith celf mwyaf gwreiddiol a gafaelgar yw fideos Stefan Gant, sydd i'w ganmol yn fawr am ei ddireidi ffraeth, ei ffresni o ran gweledigaeth a'i sensitifrwydd at y cymeriad dynol gan wneud i ni edrych eto ar ddigwyddiadau eithaf cyffredin mewn campfa a phwll nofio. Gall edrych ar fideo fod yn fusnes llafurus ond y mae rhywbeth ynglŷn â gwaith yr artist sy'n eich denu i mewn i'r ddrama - fel gwyltio cath yn gwthio soser oddi ar silff. O'r bachgen tew ar y bwrdd deifio i'r dyn ifanc fel matsien o denau yn rhoi cynnig ar godi pwysau, ar un llaw mae elfen o hiwmor a diniweidrwydd, tra ar y llaw arall mae'r gwaith yn debycach i ffilm o arbrofion meddygol.

Roeddem wrth ein bodd yn dyfarnu'r Ysgoloriaeth Artist Ifanc i Jack Burton. Bwriedir y wobwr hon i alluogi artistiaid addawol i ymchwilio eu syniadau yn llawnach. Mae'n dda



Llyn Ogwen
Gareth Roberts

gweld artist ifanc yn defnyddio pob math o gyfrwng heb fod yn orbryderus ynglŷn â'r canlyniad. Mae Jack Burton yn ymddangos ei fod yn artist sydd heb ei feddiannu'n llwyr gan grefft creu'r gwaith ond yn hytrach gydag arbrofi â syniadau. Mae rhai artistiaid bron â bod wedi mireinio eu hymarfer yn rhy gynnar o lawer. Gobeithiwn weld gwaith Jack Burton eto yn y dyfodol.

Mae gan waith enillydd y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain eleni, Emrys Williams, serenedd gweledigaeth sy'n dod gan artist sy'n feistr ar ei gamp. Mae'n ymchwilio ei idiom ddewisedig, sydd ar y dechrau yn ymddangos yn blentynnaidd neu'n ddiniwed, gyda hyder ac aeddfedrwydd.

Er, yn y pendraw, roedd pennu y wobwr Gelfyddyd Gain yn glir, unfrydol a chyflym, achosodd y penderfyniad i beidio

dyfarnu'r Fedal Aur am Grefft a Dylunio drafodaeth helaeth. Yr oedd gwaith o safon ymhlith y cyflwyniadau gan gynnwys gwaith Pamela Rawnsley, Elin Huws, David Binns ac eraill ond yr oedd rhyw deimlad o déjà vu.

Ni chafodd y nifer o wneuthurwyr o safon sy'n byw yng Nghymru ei adlewyrchu yn nifer y cynigion a dderbyniwyd ac er bod y cyflwyniadau yn cynnwys gwaith o safon, nid oedd digon ohono. Wrth ystyried y meini prawf 'arloesedd' a 'rhagoriaeth' a gynigiwyd i'r detholwyr, penderfynwyd yn unfrydol, er bod gwaith wedi'i gynnwys ar y rhestr fer, nad oedd cyflwyniad eithriadol eleni oedd yn deilwng o'r wobwr.

Y gobaith yw y gellir dod o hyd i ffordd o ddenu llawer o wneuthurwyr teilwng y gwyddom sy'n bodoli i gyflwyno eu gwaith - yn wir gellir ennill gwobr o £5,000.

Yr allwedd i arddangosfa cynigion agored lwyddiannus yw perswadio'r bobl iawn i gyflwyno'u gwaith. Er ei bod yn amlwg bod y dasg i'w chyflawni gan y panel yn fwy anodd pan fydd llawer o waith da i'w ystyried, y mae hefyd yn haws, gan y gall rhywun fod yn sicr o gael arddangosfa o safon uchel sy'n llwyr gynrychioliadol o'i maes.

Efallai nad yw llawer o artistiaid a gwneuthurwyr yn hoff o gystadleuaeth agored gan nad ydynt am anfon eu gweithiau gorau i mewn oherwydd eu bod am iddynt fod ar gael i'w gwerthu. Neu nad ydynt yn hoff o'r hyn a dybiant i fod yn loteri o arddangosfa sy'n gynnyrch beirniaid, gyda'i phosibilrwydd o wrthodiad yn ogystal â llwyddiant. Ond caiff yr arddangosfeydd hyn eu gweld gan filoedd o bobl - gwelwyd arddangosfa Celfyddydau Gweledol yr Eisteddfod y llynedd gan hyd at 40,000 o ymwelwyr. Yn sicr am y rheswm hwnnw'n unig dylai artistiaid, sydd wrth eu natur yn fodlon mentro ac yn ymchwilyr tiriogaethau dieithr, gynnig eu gwaith i gael ei bwysu a'i fesur.

**Andrew Coomber, Iwan Gwyn Parry, Julian Treuherz,
Meri Wells, Bedwyr Williams**



Llewyrch
Elin Huws

Sylwadau'r Detholwyr

Selectors' Statement

There is a surprising and encouraging number of artists in Wales whose art is rooted in a sense of place. The exhibition includes some kinds of art that could have been made anywhere, but also works that say they are 'Welsh', sometimes loud and clear, and sometimes more quietly. This is not to say that they deal in folksy Welsh stereotypes, coal, slate, sheep and Snowdonia. To see the lush, night-time photographs of Gareth Roberts is to see the Welsh landscape with new eyes. The unsettling photographs by Manon Awst and Benjamin Walther use Welsh settings but the end result is far from stereotypical, whilst the witty video by Inga Burrows gives us an oddly memorable narrative about childhood in a Valleys' town. More traditional, but still taking the Welsh scene as their starting points, are the surprisingly varied series on the A4061 by Paul Cabuts and the moody painted stories by Thomasin Toohie. All these works have something personal and original about them, and it was this that convinced the panel to select them.

Perhaps the most original and engaging artworks are the videos by Stefan Gant, who is to be Highly Commended for his mischievous wit, freshness of vision and sensitivity to human character, making us look again at quite ordinary events in a gym and swimming pool. Viewing video can be a laborious affair but there is something to this artist's work that draws you into the drama – like watching a cat pushing a saucer off a shelf. From the fat boy on the diving board to the young match-stick man attempting to weight-lift, on the one hand there is an element of humour and innocence, whilst on the other the work is more akin to a film of medical experiments.

We were delighted to award the Young Artist Scholarship to Jack Burton. This award is intended to enable artists of promise to explore their ideas more fully. It is good to see a



Sgwrs Bois y Gampfa / Gym Boys Converstiaon
Stefan Gant

young artist exploiting all sorts of media without being overly concerned about the outcome. Jack Burton appears to be an artist who is not overcome by the craft of creating the work but rather with experimenting with ideas. Some young artists have all but refined their practice much too early. We hope to see Jack Burton's work again in the future.

The work of this year's winner of the Gold Medal for Fine Art, Emrys Williams, has a serenity of vision that comes from an artist at the top of his game, exploring his chosen idiom, which at first sight appears to be child-like or naïve, with confidence and maturity.

Whilst the Fine Art award was, in the end, clear, unanimous and quick, the decision not to award the Gold Medal for Craft and Design caused extensive discussion. There was

quality work in the submission including the work of Pamela Rawnsley, Elin Huws, David Binns and others, but there was a feeling of *déjà vu*.

The number of quality makers resident in Wales was not reflected in the number of entries received and although the submission included work of quality, there was not enough of it.

In consideration of the criteria proposed to selectors of 'innovation' and 'excellence' it was unanimously decided that, whilst work was short-listed, there was no outstanding submission this year which merited the award.

It is to be hoped that a way can be found to attract the many qualifying makers, who we know are out there, to submit – after all there is the possibility of winning a £5,000 prize.

The key to a successful open submission exhibition is to persuade the right people to submit work. Granted that the task to be undertaken by the panel is more difficult when there is a lot of good work to consider, it is also easier, as one can be assured of a high quality exhibition fully representative of its field.

Many artists and makers may not like open submission as they do not want to send in their best works because they want them available for sale. Or they dislike what they see as the lottery of a juried exhibition, with its possibilities of rejection as well as success. But these exhibitions are seen by thousands of people – last year's Eisteddfod Visual Arts exhibition was seen by up to 40,000 visitors. Surely for that reason alone, artists, who are by their nature risk-takers and explorers of unknown territories, should put their work to the test.

**Andrew Coomber, Iwan Gwyn Parry, Julian Treuherz,
Meri Wells, Bedwyr Williams**



Llestri: Cyfres Cwm Cwareli / Vessels: Cwm Cwareli Series
Pamela Rawnsley

Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain

The Gold Medal for Fine Art



Gwobr:

Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain a £5,000 (Cyngor Tref Y Fflint) i'w rannu yn ôl doethineb y detholwyr.

Detholwyr:

Andrew Coomber, Iwan Gwyn Parry, Julian Treuherz, Meri Wells, Bedwyr Williams

Dyfarwyd y wobwr ganlynol:

Emrys Williams Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain a £5,000

Stefan Gant Canmoliaeth Uchel

ENILLYDD Y FEDAL AUR AM GELFYDDYD GAIN

Emrys Williams, Caerdydd

Ynys £10,000

Bwrdd £10,000

Cadair £10,000

CANMOLIAETH UCHEL

Stefan Gant Treffynnon

Bwrdd Plymio

Bachgen yn Plymio

Siwrnai Ddycnwch

Sgwrs Bois y Gampfa

Ian, 14 oed

Prize:

The Gold Medal for Fine Art and £5,000 (Flint Town Council) to be awarded at the discretion of the selectors.

Selectors:

Andrew Coomber, Iwan Gwyn Parry, Julian Treuherz, Meri Wells, Bedwyr Williams

The following prize was awarded:

Emrys Williams The Gold Medal for Fine Art and £5,000

Stefan Gant Highly Commended

WINNER OF THE GOLD MEDAL FOR FINE ART

Emrys Williams, Cardiff

Island £10,000

Table £10,000

Chair £10,000

HIGHLY COMMENDED

Stefan Gant, Holywell

Diving Board

Diving Boy

Endurance Journey

Gym Boys Conversation

Ian, 14 years

Y Fedal Aur am Grefft a Dylunio

The Gold Medal for Craft and Design

Gwobr:

Y Fedal Aur am Grefft a Dylunio a £5,000 (Cymdeithas Wil Bryan, Yr Wyddgrug) i'w rannu yn ôl doethineb y detholwyr.

Detholwyr:

Andrew Coomber, Iwan Gwyn Parry, Julian Treuherz, Meri Wells, Bedwyr Williams

Ataliwyd Y Fedal Aur am Grefft a Dylunio.

Prize:

The Gold Medal for Craft and Design and £5,000 (Cymdeithas Wil Bryan, Mold) to be awarded at the discretion of the selectors.

Selectors:

Andrew Coomber, Iwan Gwyn Parry, Julian Treuherz, Meri Wells, Bedwyr Williams

The Gold Medal for Craft and Design was withheld.

Ysgoloriaeth Artist Ifanc

Young Artist Scholarship

Ysgoloriaeth:

£1,500 (Cartref Nyrsio 'Y Bwthyn', Yr Wyddgrug)

Sefydlwyd yr ysgoloriaeth hon er mwyn hybu celf a chreffft yng Nghymru. Dyfernir yr ysgoloriaeth i'r ymgeisydd mwyaf addawol er mwyn ei alluogi i ddilyn cwrs mewn ysgol neu goleg celf a dylunio cydnabyddedig neu fynychu dosbarthiadau meistr. Mae'r ysgoloriaeth yn agored i'r sawl dan 25 oed.

Yn ogystal, cynigir gofod i enillydd yr ysgoloriaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Caerdydd 2008

Detholwyr:

Andrew Coomber, Iwan Gwyn Parry, Julian Treuherz, Meri Wells, Bedwyr Williams

Dyfarnwyd yr Ysgoloriaeth Artist Ifanc i **Jack Burton**

Jack Burton, Y Barri

Cyfarwyddiadau o'r Gorffennol I a II

Merched Noeth yn eu Blodau

Darlun

Enillydd Ysgoloriaeth Artist Ifanc 2007

Andrew Richards, Maesteg

Scholarship:

£1,500 ('Y Bwthyn' Nursing Home, Mold)

This scholarship has been established to promote art and crafts in Wales. It is awarded to the most promising candidate to enable him or her to pursue a course in a recognised school or college of art and design or to attend master classes. The scholarship is open to those under 25 years.

The winner of the scholarship will also be offered space at next year's National Eisteddfod of Wales, Cardiff 2008.

Selectors:

Andrew Coomber, Iwan Gwyn Parry, Julian Treuherz, Meri Wells, Bedwyr Williams

The Young Artist Scholarship is awarded to **Jack Burton**

Jack Burton, Barry

Instructions From the Past I and II

Nudes in Flower


Drawing

Young Artist Scholarship winner 2007

Andrew Richards, Maesteg

Ysgoloriaeth Artist Ifanc

Young Artist Scholarship



Cyfarwyddiadau o'r Gorffennol I a II / Instructions From the Past I and II

Jack Burton



Llawr / Floor
Andrew Richards

Gwobrau Eraill

Other Awards

Dewis y Bobl

Gwobr:

£500 (Rhoddedig gan Nerys, Marc a Rhian, er cof am Alan Victor Jones, Cadeirydd Is-bwyllgor Celf a Chrefft Eisteddfod Bro Delyn 1991) i'w dyfarnu i'r darn neu'r casgliad mwyaf poblogaidd o waith yn yr Arddangosfa Celfyddydau Gweledol

Gwahodddwn ni chi i edrych yn fanwl ar y gwaith i gyd cyn penderfynu beth yw eich ffefryn. Rhowch yr enw ar y papur pleidleisio. Bydd y bleidlais yn cau am 6.00pm, nos Iau, 9 Awst er mwyn cael amser i gyfrif y pleidleisiau a chysylltu â'r enillydd.

Cyflwynir y wobwr yn Y Lle Celf am 3.00pm, ddydd Sadwrn, 11 Awst.

Enillydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru Abertawe a'r Cylch 2006

Sara Moorhouse, Caerdydd

Gwobr Ifor Davies

Gwobr:

£600. Dyfernir gan Ifor Davies am y gwaith yn yr Arddangosfa Celfyddydau Gweledol sy'n cyfleu ysbryd y frwydr dros iaith, diwylliant a gwleidyddiaeth Cymru. Cyhoeddir enw'r enillydd am 2.00pm, ddydd Llun, 6 Awst.

Enillydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru Abertawe a'r Cylch 2006

André Stitt, Caerdydd

The People's Choice

Prize:

£500 (Given by Nerys, Marc and Rhian in memory of Alan Victor Jones, Chair of the Bro Delyn 1991 Art and Crafts Sub-committee) awarded to the most popular piece or collection of work in the Visual Arts Exhibition.

We invite you to take a careful look at all the work before coming to a decision concerning your favourite work. Write the name on the voting slip. Voting will close at 6.00pm, Thursday, 9 August in order to allow for counting the votes and contacting the winner.

The prize will be presented at Y Lle Celf at 3.00pm, Saturday, 11 August.

Winner at the National Eisteddfod of Wales Swansea and District 2006

Sara Moorhouse, Caerdydd

Ivor Davies Award

Prize:

£600. Awarded by Ivor Davies for the work in the Visual Arts Exhibition that conveys the spirit of activism in the struggle for language, culture and politics in Wales. The name of the winner will be announced at 2.00pm, Monday, 6 August.

Winner at the National Eisteddfod of Wales Swansea and District 2006

André Stitt, Cardiff



Pendilio 1 / Oscillation 1
Sara Moorhouse

Gwobrau Eraill

Other Awards

Gwobr Bwrcasu Flynyddol

Cymdeithas Gelfyddyd Gyfoes Cymru

Dyfernir gwobr bwrcasu gan Gymdeithas Gelfyddyd Gyfoes Cymru i waith yn yr Arddangosfa Celfyddydau Gweledol. Ychwanegir y gwaith at gasgliad CGGC i'w drosglwyddo maes o law i oriel gyhoeddus yng Nghymru.

Y llynedd, prynwyd cyfres ffotograffau *Ffarwél Rock* gan **Aled Rhys Hughes** ar gyfer casgliad Oriol Gelf Glynn Vivian, Abertawe.

Ymddiriedolaeth Derek Williams ac Amgueddfa Cymru

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae Ymddiriedolwyr Derek Williams, mewn cydweithrediad ag Amgueddfa Cymru ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru, wedi prynu gweithiau celf yn dilyn ymweliadau â stiwdios artistiaid a welwyd yn yr Eisteddfod. Ychwanegwyd y rhain at y casgliad cynyddol o gelfyddyd gyfoes Gymreig o eiddo'r Ymddiriedolaeth sydd i'w chanfod yn y Casgliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd.

Contemporary Art Society For Wales

Annual Purchase Prize

The Contemporary Art Society for Wales will award a purchase prize to a work displayed at the Visual Arts Exhibition. The purchased work will enter the CASW collection for subsequent distribution to a public gallery in Wales.

Last year, **Aled Rhys Hughes'** series of *Ffarwél Rock* photographs were purchased for the Glynn Vivian Art Gallery, Swansea.

The Derek Williams Trust and National Museum Wales

Over the past ten years the Derek Williams Trustees, working with Amgueddfa Cymru - National Museum Wales and the National Eisteddfod of Wales, have acquired artworks following studio visits to artists seen at the Eisteddfod. These have been added to the Trust's growing collection of Welsh contemporary art, which is seen in the context of the National Collection in Cardiff.

Calon Fflint - Jon Gower

Fel Gwydion, y rhithiwr ystrywgar rhyfeddol yn 'Y Mabinogi', mae'r artist i'w weld mewn amryw weddau. Weithiau, fel Betina Skovbro, mae'n hwylusydd, yn sianelu bywyd fel y caiff ei fyw a'i fyw yn ei ddirni. Mae ffotograffau dogfennol Mike a'i deulu yn galw i gof y rhai hynny o eiddo Richard Billingham a'i bortreadau o fywyd ar un o stadau Middlesborough. Yn yr un modd maent yn loetran yn y meddwl, dim un yn fwy nac yn **Mike yn cael enw ei fab diweddaraf wedi'i ychwanegu ar y goeden deulu ar ei gefn** sy'n cyfareddu rhywun, lle mae'r tatŵydd yn arfer ei grefft hyd yn oed wrth i'r mab a enwyd uchod gael ei faldodi gan dad balch.

Weithiau mae'r artist yn addysgol, gan ein dysgu ni sut i edrych, neu o leiaf gynnig y cyfle i ni edrych, o'r newydd ar bethau, ac nid yw hyn yn fwy amlwg yn unman nag yn y tirluniau sydd i'w gweld yn Yr Wyddgrug. Lle cafodd tirluniau Cymru eu paentio yn y gorffennol gan bobl o'r tu allan i'r wlad, a greodd wlad a ddi-rymwyd wedi'i phoblogi yn unig gan ambell i wraig Gymreig yn ei siôl, mae artistiaid heddiw yn bwrw llygad manwl ar bethau, gan eu dinoethi o'r pertrwydd a'r Gothig. Mae **Tuag at Merthyr Mawr Daliesque** Thomasin Toohie yn rhoi golwg fytholegol ar le lle mae tywod yn bygwth claddu hanes, tra bod prosiect ffotograffiaeth Toril Brancher yn herio'r canfyddiad o Ferthyr Tudful fel tref ddirwasgedig gyda'i dyddiau gorau yn bell yn y gorffennol. Yn hytrach mae'n cyflwyno pwll dŵr wedi'i amgylchynu gan goed ac mewn un arall o'i **Golygfeydd Newydd** darlunnir anifeiliaid yn cerdded ar draws haenau o weundir gwyn, delwedd a allai'n hawdd fod yn llun llyfryn twristiaid ar gyfer Gwlad Awyr Eang Montana. Mae **Coedwig Redynog a Chaeau Gwastad** Katie Allen yn hyfrydwch o batrymau, gydag amnaid yn fwy na thebyg i gyfeiriad Gustave Klimt tra bod Gareth Roberts yn cynnig golwg fodern ar olygfeydd o **Lyn Ogwen** yn Eryri sydd wedi bod yn destun sylw ers amser a'u rhoi ar gynfas. Ond lle'r oedd yr olwg Ramantaidd ar

raeadrau yn tanlinellu gwylltineb a gwylltrwydd y rhaeadrau hyn, lle bydd dŵr rhedegog gwyn yn torri drwy geunentydd dan iorwg, mae Gareth Roberts yn eu gweld fel ffynonellau llonydd, tawel o olau - yn blygedig, blith draphlith ac yn llachar. Dyma bennawd da i forluniau Emrys Williams gyda'u serenedd myfyriol. Mae ei ynsoedd goleuol yn hwylio i'r golwg fel pe baent wedi lithro i'r golwg o orwel pell y dychymyg. Diflannodd y lliwiau llachar a'r naws cardiau post oedd yn rhai o'i weithiau blaenorol, i'w disodli gan fyfyrdodau harddwych, o leoedd a modelau a ddychmygwyd ar gyfer eu creu. Mae ei stiwdio ym Mae Caerdydd yn ffatri freuddwydion, yn weithgynhyrchfa o dopograffau.

Ar adegau eraill mae'r artistiaid yn ein dihuno i'r broses o weld ac fel mae gweithiau celf op eglur a bywiog Gethin Wyn Jones yn ei ddangos, ni ddaeth i ben gyda Bridget Riley. Mae'r gweithiau onglog llym a llachar eu lliw hyn yn serio ar y retina tra'u bod mor fanwl gywir â mathemateg.

Ac mae'r artist weithiau yn geidwad, fel y mae tîm ffotograffig Tina Carr ac Annemarie Schöne yn awgrymu, wrth iddynt ddal y lithriad hanes tebyg i we pry cop drwy ffermydd eu cymdogion. Mae pen llwynog wedi'i stwffio yn edrych yn herfeiddiol yn union o'i flaen, tra bod y beddrod teledu gyda setiau teledu o dan haenau o we pry cop wedi'i orchuddio yn syml â llwch. Daethant o hyd i'w testun yn y fan lle maent yn byw, ac maent yn dweud wrthym beth ddaethon nhw o hyd iddo wrth iddynt ymchwilio'r tai allan ac o dan drawstiau.

Erbyn hyn mae hi bron yn ystrydeb i sôn am hyder y gymuned celfyddydau gweledol yng Nghymru ond mae hefyd hiwmor ar waith yn rhai o'r gweithiau a arddangosir - megis darnau cerameg llawdriniaeth organau'r corff Daniel Allen. Hoffais **Di-liny** lle mae'r manicin anafedig a'i hosgo pathetig yn ymddangos fel pe bai ar ei ffordd i ofal dydd

prostheteg a blychau adar cloc y gwcw Carwyn Evans sydd gyda'i gilydd yn awgrymu bod heddiw wedi'i ddal i fyny gan agwedd esmwyth a llawn hwyl tuag at bethau. Mae **Lletem** Melanie Brown o degellau dwyreiniol eu golwg yn ysgrif geinwch am dri dimensiynoldeb a ffurf. Mae mytholegau modern Cherry Pickles yn cymysgu'r gorffennol Groegaidd gyda chyfeiriadaeth gêmâu fideo at 'Grand Theft Auto,' sy'n dyrchafu'r arferol i statws fythegol. Ond fel y dywedodd un awdur o Ffrainc unwaith 'Wedi'r cwbl dim ond clecs hen iawn yw myth.' A beth ddywed sioe eleni wrthym? Yn rhyfedd ac yn aml maent yn gwrthod geiriau'r rheini sy'n dweud y gwnânt droi Cymru yn wlad greadigol, ond yn profi'n ddi-droi'n-ôl ei bod eisoes yn hynny, ac mai'r Eisteddfod, y syrcais ddiwylliannol unigryw, yw'r lle y byddwch yn dod i weld celf yn gweithio'n dda mewn oriel deithiol, mewn cae yn rhywle, lle mae fel arfer yn addo glaw ond fyth ddigon i ddiflasu ein hangerdd, i weld beth mae pobl greadigol yn ei wneud, i weld beth sy'n deillio o ddefnyddio'r grymoedd anesboniadwy sy'n eu grymuso drwy eu dyddiau.



Fforest Redynog / Forest Ferns
Katie Allen

The Heart of Flint - Jon Gower

Like Gwydion, the astonishing shape shifter in 'The Mabinogion', the artist comes in many guises. Sometimes, like Betina Skovbro, it's as a conduit, channelling life as it is lived, and lived in the raw. The documentary photographs of Mike and his family recall those of Richard Billingham and his portraits of life on a Middlesborough estate. They similarly linger in the mind, no more so than in the arresting **Mike having his latest son's name added to the family tree on his back**, in which the tattooist plies his trade even as the aforementioned son is dandled by a proud father.

Sometimes the artist is didactic, teaching us how to look, or at least offering the opportunity to look afresh on things and nowhere is this more evident than the landscapes on show at Mold. Where Welsh landscapes were painted by outsiders, who created an emasculated country populated only by the occasional shawled Welsh lady, today's artists train a flinty eye on things, stripping them of the prettified and the Gothic. Thomasin Toohie's Daliesque **Towards Merthyr Mawr** gives a mythical take on a place where sand threatens to bury history, while Toril Brancher's photography project challenges the perception of Merthyr Tydfil as a down-at-heel town with its better days well behind it. Rather she presents a tree enclosed pool of water and in another of her **New Views** depicts animals walking across swathes of white moor, an image which could easily be a tourist brochure snap for the Big Sky Country of Montana. Katie Allen's **Forest Ferns** and **Flat Fields** are delights of pattern, with a probable nod in the direction of Gustave Klimt while Gareth Roberts offers a modern take on views of Snowdonia's **Llyn Ogwen** that have long been looked at and rendered onto canvas. But whereas the Romantic take on waterfalls underlined the wildness and wilderness of these cataracts, where white water cuts through ivied overhang, Gareth Roberts sees them as still,

